

22 Mehefin 2023

Annwyl gyfaill,

Dyma ysgrifennu ar ran Ymddiriedolaeth Dewi-Prys Thomas, a sefydlwyd yn 1990 i ddathlu bywyd Dewi-Prys Thomas (1916-85), fel dyn oedd wedi cael dylanwad dwfn ar bensaerniaeth a chynllunio trefol yng Nghymru. Roedd Dewi yn adnabyddus iawn i nifer, yn enwedig cyn-fyfirwyr pensaerniaeth neu gynllunio trefol ym Mhrifysgol Caerdydd lle teimlwyd ei ddylanwad ymhell wedi ei ymdeoliad yn 1981.

Yn enw Dewi-Prys Thomas, bwriad yr Ymddiriedolaeth ydy hyrwyddo rhagoriaeth mewn pensaerniaeth, dylunio trefol, dylunio dinesig, dylunio tirlun a disgyblaethau creadigol eraill sy'n cyfrannu at safon bywyd, hunaniaeth ac adfywiad Cymru. Ar un amser, bu'r Ymddiriedolaeth yn gwobrwyo myfyrwyr â cyrhaeddiad uchel yn adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, ac Ysgol Bensaerniaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Yna, rhwng 2003-2015, bu'r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno gwobr fawreddog, a gafodd ei ddisgrifio yn 'Touchstone: cylchgrawn pensaerniaeth yng Nghymru' fel 'Gwobr bensaerniaeth bwysicaf Cymru', er fod y wobwr hefyd yn adnabod rhagoriaeth mewn meysydd eang eraill, megis dylunio trefol, tirlun, peirianyddol, a chelf cyhoeddus.

Wedi absenoldeb o wyth mlynedd, yr ydym wrth ein boddau o adfer gwobr mewn cyd-weithrediad a'r RSAW. Bydd Gwobr Dewi-Prys Thomas nawr yn cael ei gyflwyno pob blwyddyn i'r prosiect neu fenter sy'n ymateb orau i safle a cyd-destyn, gan gyfrannu yn bositif i wahanolrwydd safle, a dod i afael a sialensau amgylcheddol a chymdeithasol Cymru yn y 21fed ganrif. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn hybu llyfr posibl o waith a bywyd Dewi-Prys Thomas.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ariannu ei weithgareddau o'r arian a godwyd yn 1990 er cof am Dewi-Prys Thomas, drwy arweiniad Caerdydd 2000, Cymdeithas Ddinesig Caerdydd. Tri-deg mlynedd ymhellach, mae'r cyllid yn lleihau ac mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am gyfraniadau pellach i barhau ein gweithgareddau, i gynnwys Gwobr Dewi-Prys Thomas. Byddem yn hynod ddiolchgar o unrhyw gyfraniad i barhau etifeddiaeth yr athrô carismatig yma oedd a'i galon ar dân tros Gymru a'r amgylchedd adeiladol. Dylid gwneud sieciau yn daliadwy i 'The Dewi-Prys Thomas Trust', neu gellir talu â BACS (Rhif didoli: 20-18-23 / Rhif cyfrif: 90653535 / Cyfeirnod: 508866808) drwy ein hysbysu fod y taliad wedi ei wneud. Byddwn yn fwy na hapus darparu derbynneb, ar gais.

Gyda diolch o flaen llaw

*Ar ran Ymddiriedolaeth Dewi-Prys Thomas*



**Rhys Llwyd Davies**  
Secretary/Ysgrifennydd

E: [rhys@rhysllwyddavies.co.uk](mailto:rhys@rhysllwyddavies.co.uk)

M: 07774 471445

W: [www.dewi-prysthomas.org](http://www.dewi-prysthomas.org)

Please reply to: Rhys Davies  
The Dewi-Prys Thomas Trust  
c/o Rhys Llwyd Davies – Architect | Pensaer  
swyddfa Heulwen  
29 Y Stryd Fawr  
Y Bala  
Gwynedd  
LL23 7AG